------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 308(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau'r toriadau i gyllid amaethyddol Cymru a gyhoeddwyd yn adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar 25 Tachwedd 2020?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-20

(15 munud)

**NDM7493** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Adroddiad 02-20, a osodwyd gerbron y Senedd ar 25 Tachwedd 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

(30 munud)

**NDM7491** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Medi 2020.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2020.

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Datgarboneiddio trafnidiaeth

(60 munud)

**NDM7494** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei ymchwiliad: Datgarboneiddio trafnidiaeth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Gorffennaf 2020.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2020.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Y sector bwyd

(60 munud)

**NDM7495** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi pwysigrwydd y sector bwyd i ystod eang o agendâu polisi yng Nghymru, gan gynnwys yr amgylchedd, iechyd, yr economi a thlodi;

2. Yn gresynu at y diffyg aliniad i ddarparu polisi bwyd cenedlaethol cydlynol o fewn strategaethau a chynlluniau gweithredu bwyd Llywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf;

3. Yn cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi amlygu gwendidau ein system fwyd bresennol.

4. Yn canmol y rôl y mae ffermwyr a chynhyrchwyr Cymru yn ei chwarae yn y broses o gadw ein silffoedd wedi stocio.

5. Yn deall bod argyfyngau'r hinsawdd, natur a bioamrywiaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o dywydd eithafol a fydd yn effeithio'n sylweddol ar y system fwyd fyd-eang.

6. Yn nodi bod 14 y cant o deuluoedd â phlant yn y DU wedi profi ansicrwydd bwyd rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020, a bod Ymddiriedolaeth Trussell wedi dosbarthu 70,393 o barseli bwyd brys yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) symud tuag at ddull mwy cydlynol o ymdrin â pholisi bwyd yng Nghymru drwy ddod â chomisiwn system fwyd traws-sector at ei gilydd a rhoi iddo'r dasg o ddatblygu cynllun i ddarparu system fwyd sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol;

b) sicrhau bod systemau bwyd yn gallu gwrthsefyll ffactorau allanol yn y tymor hir, fel yr argyfwng hinsawdd;

c) datblygu gallu prosesu lleol ledled Cymru;

d) cynyddu faint o fwyd a diod o Gymru a gaiff ei gaffael drwy wasanaethau cyhoeddus.

System Fwyd yng Nghymru sy'n Addas i Genedlaethau'r Dyfodol - Adroddiad gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd, a gomisiynwyd gan WWF Cymru (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1. Rebecca Evans (Gŵyr)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod mynediaf at fwyd a gwarchod yr amgylchedd yn cael ei gyflawni drwy wella sgiliau, codi incwm a galluogi gweithredu ar y cyd ar lawr gwlad rhwng cymunedau, busnesau a chyrff cyhoeddus.

2. Yn croesawu'r adroddiad gan yr Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn cytuno y dylai'r mecanweithiau newydd ar gyfer seilwaith a chyflenwi yn cael eu llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i ddod â ffermwyr, busnesau bwyd, cyrff cyhoeddus a chymdeithas sifil at ei gilydd i weithio tuag at weledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;

b) i ddisodli system o daliad sylfaenol ar gyfer cymhorthdal fferm i gyflawni canlyniadau amgylcheddol yn ogystal â bwyd o safon uchel;

c) i hyrwyddo gweithio teg ac arloesi yn y sector bwyd yng Nghymru i helpu i greu mwy o swyddi sy'n cael eu talu'n dda yn yr economi sylfaenol;

d) i gefnogi prosiectau tyfu bwyd cymunedol ac ail-ddefnyddio bwyd ym mhob cymuned yng Nghymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 7:

cyflwyno siarter bwyd a diod leol i annog siopau, caffis a bwytai i werthu bwyd a diod Cymreig o ffynonellau lleol a helpu i hyrwyddo'r cynllun i ddefnyddwyr;

datblygu strategaeth dwristiaeth i hyrwyddo llwybrau a phrofiadau bwyd a diod ledled Cymru;

gweithio gyda Llywodraeth Ei Mawrhydi i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru dramor.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7492** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Bywyd gwyllt eiconig Cymru: trafferthion gwiwerod coch Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 25/11/2020 i'w hateb ar 02/12/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OQ55951

**(e)**

Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i fyrddau iechyd lleol ar atal achosion o COVID-19 mewn ysbytai?

**David Rees** *Aberafan*

2 OQ55970

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gwasanaethau diagnostig ledled Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

3 OQ55950

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith COVID-19 ar unigrwydd?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

4 OQ55979

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiolrwydd trafodaethau rhynglywodraethol ynghylch yr ymateb i COVID-19?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ55966

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am driniaeth colli golwg yng ngogledd Cymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

6 OQ55958

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddosbarthu brechlynnau COVID-19 ledled Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

7 OQ55972

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae byrddau iechyd Cymru yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r don gyntaf o frechlynnau COVID-19?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

8 OQ55955

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau diogelu iechyd ym Mlaenau Gwent?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ55982

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion iechyd lleol a chynghorwyr sir ynghylch cyfraddau achosion COVID-19 yng ngorllewin Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

10 OQ55954

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision rhagnodi electronig i feddygon teulu a fferyllfeydd yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

11 OQ55959

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiolrwydd ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r llywodraethau datganoledig ar ymateb cydgysylltiedig i COVID-19?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

12 OQ55975

**(e)**

Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ba mor gyflym y gellir cyflwyno brechlyn a'i roi i bobl risg uchel ar ôl iddo gael ei gymeradwyo?

# Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg

**Nick Ramsay** *Mynwy*

1 OQ55956

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yn ne Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru* 

2 OQ55978

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ynghylch rheoliadau COVID-19?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

3 OQ55961

**(e)**

Pa effaith y mae COVID-19 yn ei chael ar bobl sy'n byw gydag awtistiaeth yng Nghymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

4 OQ55976

**(w)**

Pa strategaethau sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau fod modd cadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y gymuned leol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig?

**David Melding** *Canol De Cymru*

5 OQ55968

**(e)**

Pa fesurau sydd ar waith i hyrwyddo gwydnwch gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn ystod y pandemig COVID-19?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ55980

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl y tu allan i oriau arferol?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ55977

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r ddarpariaeth iechyd meddwl yn Llanelli?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

8 OQ55960

**(e)**

Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i glybiau rygbi a phêl-droed cymunedol sydd wedi cael eu gorfodi i gau eu cyfleusterau oherwydd COVID-19?

**Leanne Wood** *Rhondda*

9 OQ55973

**(e)**

Pa fentrau sy'n cael eu cynllunio gan Lywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

10 OQ55965

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith hapchwarae ar iechyd meddwl yng Nghymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

11 OQ55969

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogwyr yn dychwelyd i ddigwyddiadau chwaraeon?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ55981

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn Nwyrain De Cymru?